


GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

# NEWYDDLEN HÂF 2025

## CROESO I NEWYDDLEN YR HÂF

Wrth i'r flwyddyn garlamu yn ei blaen rydym yn awyddus i rannu'r newyddion a digwyddiadau diweddaraf gan GISDA. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod llawn digwyddiadau cyffrous, ac yn y rhifyn hwn, byddwn yn sôn am rhai o'r ffyrdd mae GISDA yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc bregus Gwynedd.

## MAE GISDA YN 40!

Wrth i ni nodi carreg filltir arbennig, 40 mlynedd o wasanaethu pobl ifanc yng Ngwynedd, mae'r haf yma wedi bod yn llawn dathliadau, atgofion, a digwyddiadau ysbrydoledig.

Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r daith hyd yma – rydych chi wedi helpu siapio dyfodol gwell i gannoedd o bobl ifanc.






# CYNHADLEDD GWASANAETHAU POBL IFANC 2025




Cynhaliwyd Cynhadledd Gwasanaethau Pobl Ifanc yn y Galeri, Caernarfon fel rhan o ddathliadau 40 mlynedd GISDA – diwrnod llawn egni, ysbrydoliaeth a chydweithio, gyda'r haul yn disgleirio a'r lleoliad yn llawn balchder.

Cynhaliwyd gweithdai 'breakout' amrywiol ar draws adeilad y Galeri, gyda phob ystafell yn cael ei defnyddio'n llawn. Ymhlith y gweithdai roedd:

- Cyflwyniad i waith GISDA
- Panel ariannu gyda Plant Mewn Angen, WCVA a'r Loteri Genedlaethol
- Gweithdai gan Frân Wen, Adran Gwaith Ieuenctid Gwynedd, a Bill Rowlands (End Youth Homelessness Cymru)

Croesawyd siaradwyr arbennig o feysydd amrywiol :

- Sian Tomos, Prif Weithredwr GISDA
- Bill Rowlands, End Youth Homelessness Cymru
- Iwan Trefor Jones, Cymdeithas Tai Adra
- Lewis Williams ac Ann Owen-Williams, Senedd Ieuenctid Cymru
- Y Gwir Anrhydeddus Liz Saville Roberts AS
- Cynghorydd Menna Trenholme, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd
- Anya Sherlock a Zack Robinson, GISDA

I gloi'r diwrnod, cawsom y fraint o groesawu Dafydd Iwan, a roddodd araith bwerus cyn perfformio'r gân 'Hawl i Fyw' yn ddigyfeiliant – gan gyfeirio'n deimladwy at bobl Gaza ac at hawliau dynol. Gorffennodd gyda'r anthem eiconig 'Yma o Hyd', gan godi'r to a'n calon.



# 40 MLYNEDD O STRAEON

Un o uchafbwyntiau'r Cynhadledd Gwasanaethau Pobl Ifanc oedd y gornel greadigol a baratowyd gan griw talentog Creadigol GISDA. Roedd yma gasgliad o ysgrifau byrion gan pobl sydd wedi cael cefnogaeth gan GISDA dros y 40 mlynedd diwethaf, gan rhannu atgofion pwerus am eu hamser gyda GISDA – arddangosfa emosiynol ac ysbrydoledig.






Bydd yr arddangosfa hon ar agor drwy gydol gwyliau'r hâf yn Galeri Caernarfon – felly os ydych chi'n cael amser, gwnewch yn siŵr eich bod yn galw heibio i'w gweld!

# HER 40KM - PWLLHELI I GAERNARFON

Roedd na theimlad arbennig iawn yn ein Her 40km– llawer mwy na dim ond codi arian. Diwrnod llawn egni, cefnogaeth a balchder. Roedd hi'n wych cael staff a phobl ifanc o bob rhan o GISDA gyda'n gilydd. Roedd sawl troed poenus erbyn y diwedd... ond roedd o'n hollol werth chweil!

Diolch yn fawr i Urdd Awyr Agored am ein cefnogi trwy'r dydd. Diolch arbennig i'n noddwyr a chefnogwyr – heb eich caredigrwydd a haelioni, fyddai'r diwrnod ddim wedi bod mor llwyddiannus.



# YNYS ENLLI

Yn ddiweddar, treuliodd criw o bobl ifanc a staff GISDA bum diwrnod arbennig ar Ynys Enlli – profiad unigryw a bythgofiadwy a gafodd ei wireddu diolch i gefnogaeth hael Ymddiriedolaeth Enlli a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Roedd y daith yn gyfle gwerthfawr i'r bobl ifanc ddarganfod ecoleg, hanes a bywyd unigryw'r ynys drwy weithgareddau ymarferol a hwyliog dan arweiniad y wardeniaid lleol. Roedd y daith hefyd yn gyfle i ddiffodd sgriniau, a mwynhau seibiant gwerthfawr o brysurdeb bywyd bob dydd.

Roedd yr awyrgylch yn llawn chwerthin, hwyl, creadigrwydd a chydweithio. Fe wnaeth y bobl ifanc gymryd rhan yn llawn, cefnogi ei gilydd a chreu atgofion fydd yn para am oes. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran – ac i bobl arbennig Enlli am eu croeso a'u caredigrwydd.










## DATHLIADAU MIS BALCHDER

Rydym wedi bod yn dathlu Mis Balchder yma yn GISDA gyda gweithgareddau creadigol, codi ymwybyddiaeth, a pharti Pride arbennig i'n pobl ifanc!

Bu'n fis llawn llawenydd, mynegiant a chynhwysiant - yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw creu llefydd diogel lle mae pawb yn teimlo'n weladwy, yn cael cefnogaeth, ac yn falch o bwy ydyn nhw.








# DATHLU EIN GWIRFODDOLWYR



Drwy brosiect Academi Cyfleon, mae ein pobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli gwerthfawr – cyfle i ddatblygu sgiliau, magu hyder a pharatoi ar gyfer byd gwaith.
Fel rhan o ddathliadau Wythnos Gwirfoddoli eleni, cynhaliwyd trip arbennig i ddiolch i'n holl wirfoddolwyr. Aeth criw o bobl ifanc a staff GISDA i Fferm Henbant i wirfoddoli drwy weithio'n galed trwy'r dydd: paratoi gwelyau planhigion, bwydo'r moch ac ieir, casglu wyau a mefus, dewis perlysiau ffres a choginio pitsas a salad.
Roedd y diwrnod yn llawn gwaith caled, dysgu sgiliau newydd a mwynhau gyda'n gilydd – gwirfoddoli ar ei orau!






## GWOBRAU GWIRFODDOLI GWYNEDD

Roeddem yn falch iawn o weld Sion, un o'n gwirfoddolwyr ifanc arbennig yn derbyn gwobr yng Ngwobrau Gwirfoddoli Gwynedd ym Mhortmeirion. Rydym mor falch o ymroddiad a gwaith caled Sion, ac mae wedi bod yn bleser ei weld yn datblygu sgiliau a dod yn fwy hyderus dros y misoedd diwethaf. Da iawn Sion!



Dros y misoedd diwethaf, bu Alix, person ifanc sy'n cael cefnogaeth gan GISDA, yn gwirfoddoli i greu blancedi crochet hyfryd. Fe aeth i Gartref Bryn Blodau i rannu'r blancedi gyda'r henoed.

Rydym mor falch o Alix am ddod â chynhesrwydd a llawenydd i lawer o bobl.

# GARDD GYMUNEDOL FRON FAWR YN FFYNNU!



Yn ddiweddar, daeth staff a phobl ifanc Blaenau Ffestiniog at ei gilydd i gwblhau prosiect arbennig yng Ngardd Gymunedol Fron Fawr, gyda chymorth grant gan Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd y prosiect yn gyfle gwych i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd a gwneud rhywbeth positif i'r amgylchedd lleol.

Fe dderbyniwyd Pecyn Gardd Fwyd, gan gynnwys gwelyau uchel gyda threllisiau. Mae'r rhain bellach wedi'u plannu â pherlysiau gwyllt, planhigion dringo, mefus, aeron goch ac eirin duon. Gosodwyd hefyd focs chwilod i annog bywyd gwyllt yn yr ardal.

Mae'r ardd nawr yn le croesawgar i denantiaid – lle i ymlacio, tyfu pethau a chysylltu gyda'n gilydd.

> "Diolch i'r staff sydd wedi gweithio'n galed dros y 3 mis ddiwethaf i adnewyddu'r ardd gymunedol - mae'n edrych yn wych!" - Sharon Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth








# CAM ENFAWR YMLAEN - STORI YSBRYDOLEDIG



Ar ôl treulio tair blynedd gyda ni yn ein hostel a'n fflat symud ymlaen ym Mlaenau, rydyn ni'n falch iawn o rannu bod un o'n pobl ifanc wych wedi cymryd cam enfawr – ac wedi symud i'w chartref ei hun! Daeth i GISDA ychydig ar ôl ei phen-blwydd yn 16 oed, ac ers hynny mae wedi gweithio'n galed i adeiladu ei hyder a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fyw'n annibynnol.

Llongyfarchiadau mawr – rydyn ni'n hynod falch ohonot ti, ac yn edrych ymlaen at weld beth sydd nesaf ar dy daith!

> "Rwy'n hapus i fod yn cau'r bennod yma. Diolch am yr holl gefnogaeth rydw i wedi'i dderbyn dros y 3 blynedd diwethaf, mae'n golygu lot. Heb bawb yn GISDA, fyddwn i ddim ble rydw i heddiw, felly diolch. Byddaf yn dod i'ch gweld pan fydda i'n pasio fy prawf yrru!"

## SUT GALLWCH CHI GEFNOGI GISDA:

### RHOI

**'GIVE AS YOU LIVE'** Give as you Live Online

Codwch arian i GISDA o'ch siopa bob dydd heb unrhyw gost ychwanegol! Sganiwch y Cod QR i ddarganfod mwy:

**JustGiving**

Ewch i'n tudalen Just Giving: **www.justgiving.com/gisda**

**CYFRANNU TRWY 'TEXT'**

Tecstiwch: **GISD41 £X** i **70070**
(e.e. **GISD41 £5** i **70070**)

### FFYRDD ERAILL I HELPU

**Gwirfoddoli:** Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr i'n helpu i redeg ein rhaglenni a'n digwyddiadau.

**Codi Arian:** Trefnwch ddigwyddiad codi arian neu heriwch eich hun gyda sialens codi arian personol.

**Lledaenwch y gair:** Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am GISDA a'n gwaith.

**Dilynwch ni ar Gyfryngau Cymdeithasol:** Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol i glywed am ein newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd diweddaraf.


40
GISDA